Arolygiad annibynnol o waith troseddu oedolion a ieuenctid

# FFRAMWAITH AROLYGU

**ar gyfer**

# Arolygu Ansawdd ac Effaith (Oedolion)

Dyddiad cyhoeddi'r fersiwn: Mai 2016

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi / HMI Probation, 1st Floor Manchester Civil Justice Centre, 1, Bridge Street West, Manchester, M3 3FX; 0161 240 5336

# Cyflwyniad

Defnyddir y fframwaith arolygu hwn yn ein harolygu craidd o wasanaethau prawf oedolion yng Nghymru a Lloegr. O fewn y rhaglen arolygu hon rydym yn archwilio gwaith gwasanaethau prawf mewn ardaloedd daearyddol pendant, waeth pwy sy'n cyflawni'r gwaith. Rydym yn canolbwyntio ar:

- **asesu** *sut* mae ansawdd yr arferion yn cyfrannu at gyflawni amcanion cadarnhaol i unigolion (adrannau 2-6), a
- **gwerthuso** *pa* effaith cadarnhaol a gyflawnir (adran 1), gan fod yr effaith presennol yn rhoi tystiolaeth o gynnydd tuag at ymataliad hirdymor gan unigolion.

Y model gwaith ar gyfer yr arolygiad hwn yw:

**ansawdd** (gwaith) + **effaith** (newid cadarnhaol a gyflawnwyd) = **effeithiolrwydd**.

Yn benodol, ein nod yw adrodd a yw:

- aildroseddu yn lleihau
- y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn rhag niwed
- unigolion yn ufuddhau i ofynion eu dedfryd.

Mae'r fframwaith yn rhoi strwythur i arolygwyr asesu effeithiolrwydd yn ôl y mesurau canlyniadau hyn. Asesir ansawdd yn ôl pedair thema arferion (ennyn cydweithrediad troseddwyr, asesu a chynllunio, cyflwyno ymyraethau ac adolygu cynnydd). Rydym hefyd yn edrych ar arweinyddiaeth, rheoli a gweithio mewn partneriaeth, ac yn gwerthuso'r effaith cadarnhaol a gyflawnir o safbwynt pob elfen.

Anelwn at roi profiad defnyddiwr y gwasanaethau yng nghanol ein harolygiad ac rydym yn rhoi ystyriaeth i'r cyd-destun lleol lle gwnaed y gwaith. Cydnabyddwn fod sefydliadau sy'n rhoi mwy o sylw i anghenion amrywiol eu staff a defnyddwyr eu gwasanaethau yn fwy tebygol o gynnal llwyddiannau a chynyddu gwydnwch eu busnes. Credwn y bydd arolygu gwasanaethau o fewn y fframwaith hwn yn ein helpu ni, a'r gwasanaethau a arolygwn, i ddeall canlyniadau gwahanol ar gyfer grwpiau gwahanol, a fydd yn ei dro yn cefnogi nod cyffredinol yr arolygiad o gynorthwyo gwelliant. Er mwyn archwilio'r amrywiaeth cymhleth hwn o faterion rydym yn cymryd tystiolaeth oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau arferion, perfformiad a data. Yn atgyfnerthu hyn mae'r dystiolaeth a gasglwn drwy ddilyn llinellau manwl o ymchwiliad i faterion sy'n dod i'r amlwg o'r dadansoddiad o achosion unigol.

Mae byd gwasanaethau prawf oedolion wedi gweld newid sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae mwy o ryddid i'r rheini sy'n darparu gwasanaethau i benderfynu ynghylch manylion o ran pa wasanaethau y dylid eu darparu a sut y dylid gwneud hynny. Ar y sail honno, nid yw'r fframwaith hwn yn pennu pa wasanaethau na sut y dylid eu cyflwyno; yn hytrach mae'n archwilio a yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cyfrannu at newid cadarnhaol i unigolion. Yn ei hanfod, mae'r arolygiad hwn yn ymdrin â'r cwestiynau: a ydym wedi'n hargyhoeddi y *dylai'r* gwaith prawf a wneir gyflawni effaith cadarnhaol; a pha ddangosyddion sydd, hyd yma, o gynnydd tuag at ymataliad unigolion? Trwy'r arolygiad hwn, trwy adnabod yr hyn yr ydym wedi eu galw'n 'alluogwyr', byddwn yn hyrwyddo

arferion effeithiol yng Nghymru a Lloegr. Byddwn hefyd yn gwneud argymhellion i fynd i'r afael â 'rhwystrau' i effeithiolrwydd. Trwy ein gwaith arolygu, anelwn at gyfrannu at welliant cyffredinol gwasanaethau.

Er bod y gwaith maes ar gyfer yr arolygiadau hyn yn cael ei gyflawni gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar ei ben ei hun (yn hytrach nag ar y cyd ag arolygiaethau eraill), mae arolygiadau yn Lloegr yn cael cefnogaeth arolygwyr o'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC), Ofsted ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC). Wrth arolygu yng Nghymru ceir cymorth tebyg gan HMIC, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Er mwyn i'r arolygiadau hyn gyflawni'r effaith gorau posib, cyhoeddir yr adroddiadau'n brydlon. Mae cyrff a arolygir yn ymateb i argymhellion gyda chynllun gweithredu ar y cyd ar gyfer gwella effeithiolrwydd eu gwasanaethau a diweddaru'r arolygiaeth ar gyfnodau penodedig ar eu cynnydd wrth gyflawni gwelliant. Mae gweithgareddau dilynol, gan gynnwys ailarolygu fel bo'n briodol, yn dangos effaith, ac felly effeithiolrwydd, arolygiadau.

Am fwy o wybodaeth ar y dull arolygu Ansawdd ac Effaith, gweler y 'Model testun oedolion' sydd ar gael ar ein gwefan.

# Y fframwaith arolygu

## 1. Cyflawni effaith cadarnhaol

1.1. Lleihau aildroseddu

1.2. Amddiffynnir y cyhoedd rhag niwed

1.3. Unigolion yn ufuddhau i'w dedfryd

## 2. Cydweithrediad defnyddwyr gwasanaethau yn cyfrannu at effeithiolrwydd

2.1. Hyrwyddir canlyniadau cadarnhaol trwy ymdrin yn effeithiol â defnyddwyr gwasanaethau

2.2. Cydweithrediad yn goresgyn rhwystrau i gyflawni canlyniadau cadarnhaol

2.3. Cydweithrediad yn symbylu troseddwyr i gyflawni canlyniadau cadarnhaol

## 3. Asesu a chynllunio yn cyfrannu at effeithiolrwydd

3.1. Asesu yn pennu blaenoriaethau canlyniadau

3.2. Asesu yn adnabod galluogwyr a rhwystrau canlyniadau

3.3. Cynllunio yn galluogi i'r gwasanaethau gofynnol gael eu cyflawni mewn ffyrdd sy'n sicrhau'r effaith gorau posib

## 4. Ymyraethau yn cyfrannu at effeithiolrwydd

4.1. Ymyraethau'n cyfrannu at gynnydd ar flaenoriaethau canlyniadau

4.2. Cyflawnir ymyraethau mewn ffyrdd sy'n arwain at yr effaith gorau posib

4.3. Ymyraethau'n cael yr effaith gorau posib trwy ddiwallu anghenion amrywiol defnyddwyr gwasanaethau

## 5. Adolygiadau'n cyfrannu at effeithiolrwydd

5.1. Adolygiadau'n olrhain cynnydd ar flaenoriaethau canlyniadau

5.2. Adolygiadau'n sicrhau bod pob agwedd o arferion yn cyfuno i sicrhau canlyniadau

5.3. Adolygiadau'n rhoi ystyriaeth i anghenion amrywiol defnyddwyr gwasanaethau ac yn sicrhau eu cydweithrediad parhaus

## 6. Trefniadau arwain, rheoli a phartneriaethau yn cyfrannu at effeithiolrwydd

6.1. Arweinwyr yn creu amgylchedd lle mae aildroseddu yn cael ei leihau, y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn ac unigolion yn ufuddhau i ofynion eu dedfryd

6.2. Rheolwyr y sefydliad a'i weithlu yn hyrwyddo effeithiolrwydd

6.3. Partneriaethau'n cyfrannu at effeithiolrwydd

# 1. Cyflawni effaith cadarnhaol

## 1.1. Lleihau aildroseddu

Dangosyddion allweddol o gyflawni hyn:

- Tystiolaeth yn dangos bod lleihad wedi bod yn amlder a difrifoldeb aildroseddu.
- Tystiolaeth yn dangos bod gwelliant cyffredinol wedi bod yn y ffactorau hynny sydd fwyaf cysylltiedig ag aildroseddu, megis trefniadau byw, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, camddefnyddio sylweddau, iechyd ac ati.

## 1.2. Y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn rhag niwed

Dangosyddion allweddol o gyflawni hyn:

- Tystiolaeth yn dangos bod lleihad wedi bod yn amlder a difrifoldeb aildroseddu treisgar a rhywiol.
- Tystiolaeth yn dangos bod y cyhoedd, dioddefwyr penodol a phlant wedi cael eu hamddiffyn rhag niwed difrifol.

## 1.3. Unigolion yn ufuddhau i amodau eu dedfryd

Dangosyddion allweddol o gyflawni hyn:

- Tystiolaeth yn dangos bod unigolion wedi cwblhau dedfryd y llys.
- Tystiolaeth yn dangos bod, lle mae unigolion wedi methu â chydymffurfio, ymateb addas wedi digwydd, gan gynnwys camau gweithredu ar ôl toriad, pan fo angen.

## 2. Cydweithrediad â throseddwyr yn cyfrannu at effeithiolrwydd

### 2.1. Hyrwyddir canlyniadau cadarnhaol gan ymdrin yn effeithiol â defnyddwyr gwasanaethau

Trywydd ymholiadau posibl *(i ddarganfod sut mae pob elfen o arfer yn gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol)*:

- Sefydlir perthynas gadarnhaol gyda defnyddwyr gwasanaethau a rhoddir ystyriaeth i'w hanghenion amrywiol.
- Mae defnyddwyr gwasanaethau'n deall yr hyn a ddisgwylir oddi wrthynt a'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan oruchwylwyr.

### 2.2. Cydweithrediad yn goresgyn rhwystrau i gyflawni canlyniadau cadarnhaol

Trywydd ymholiadau posibl *(i ddarganfod sut mae pob elfen o arfer yn gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol)*:

- Ffactorau amrywiol a allai weithredu fel rhwystrau yn cael eu hadnabod ac yn cael sylw.
- Ffactorau amddiffynnol a chadarnhaol yn cael eu hadnabod a'u hintegreiddio i'r gwaith.

### 2.3. Cydweithrediad yn symbylu defnyddwyr gwasanaethau i gyflawni canlyniadau cadarnhaol

Trywydd ymholiadau posibl *(i ddarganfod sut mae pob elfen o arfer yn gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol)*:

- Defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu symbylu i weithio tuag at gyflawni canlyniadau.
- Y cydweithrediad yn ymatebol i anghenion a galluoedd troseddwyr.
- Yr ymdrech i ennyn cydweithrediad yn cael ei gynnal.

# 3. Asesu a chynllunio yn cyfrannu at effeithiolrwydd

## 3.1. Asesu yn pennu blaenoriaethau canlyniadau

Trywydd ymholiadau posibl *(i ddarganfod sut mae pob elfen o arfer yn gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol)*:

- Adnabod y risg posibl o niwed a achosir i eraill, gan roi ystyriaeth benodol i blant.
- Gwybodaeth gan asiantaethau eraill (megis trwy'r Trefniadaethau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) a phrosesau lleol i diogelu plant) yn atgyfnerthu asesiadau ym mhob achos perthnasol.
- Pryderon am ddiogelwch dioddefwyr yn cael sylw penodol mewn asesiadau.
- Adnabod ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu.
- Adnabod ffactorau sy'n gysylltiedig â bregusrwydd.
- Adnabod ffactorau a all gyfrannu at ddiffyg cydymffurfio.
- Rhoddir ystyriaeth i effaith y cyd-destun lleol ar allu defnyddwyr gwasanaethau i gyflawni canlyniadau.
- Gan ddefnyddio pob ffynhonnell berthnasol o wybodaeth, a yw asesiadau'n dadansoddi beth sydd angen ei wneud i amddiffyn y cyhoedd, cryfhau ffactorau amddiffynnol a helpu unigolion i ufuddhau i amodau eu dedfryd.
- Asesiadau'n cynnwys materion ailsefydlu lle bo hynny'n berthnasol.

## 3.2. Asesu yn adnabod galluogwyr a rhwystrau canlyniadau

Trywydd ymholiadau posibl *(i ddarganfod sut mae pob elfen o arfer yn gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol)*:

- Y dulliau sydd fwyaf tebygol o arwain at ganlyniadau cadarnhaol yn cael eu hadnabod.
- Ymyraethau arfaethedig yn cael eu hasesu ar gyfer eu haddasrwydd a'u gallu i sicrhau cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau.

## 3.3. Cynllunio yn galluogi i'r gwasanaethau gofynnol gael eu cyflwyno mewn ffyrdd sy'n sicrhau'r effaith gorau posib

Trywydd ymholiadau posibl *(i ddarganfod sut mae pob elfen o arfer yn gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol)*:

- Pan fo angen hynny, mae cynllunio clir i amddiffyn dioddefwyr a dioddefwyr posibl, ac i leihau'r risg o niwed a achosir i eraill gydag ystyriaeth benodol yn cael ei roi i blant.
- Cynlluniau i roi sylw i faterion amddiffyn y cyhoedd ac amddiffyn plant yn cael eu hintegreiddio a'u rhannu gydag asiantaethau perthnasol, e.e. trwy MAPPA a phrosesau amddiffyn plant.
- Cynllunio'n rhoi sylw i ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu.
- Cynlluniau'n gosod lefelau cysylltu a fydd yn helpu cyflawni'r canlyniadau a fwriedir.
- Cynlluniau'n rhoi sylw i ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i gydweithredu ac yn cael eu rhannu gyda phawb sy'n ymwneud â'r achos.
- Defnyddwyr gwasanaethau (a lle bo'n berthnasol, personau arwyddocaol eraill, e.e. teulu/partneriaid/gofalwyr) yn cael eu cynnwys yn llawn wrth gynllunio, gyda'r cynlluniau'n adlewyrchu eu barn.
- Cynllunio mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill yn dangos dealltwriaeth ac eglurder ar y cyd ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau pawb perthnasol gyda chynlluniau'n cael eu cysoni a'u rhannu lle bo'n briodol.
- Cynlluniau'n rhagweld newidiadau posibl yn amgylchiadau'r achos ac yn ynnwys trefniadau wrth gefn pan fo'n berthnasol.
- Cynlluniau gwaith yn rhoi sylw i faterion integreiddio cymunedol pan fo hynny'n berthnasol.
- Cynllunio ailsefydlu drwy gydol y rhan o'r ddedfryd a dreulir yn y ddalfa yn hyrwyddo trosglwyddiad effeithiol yn ôl i'r gymuned.

# 4. Ymyraethau'n cyfrannu at effeithiolrwydd

## 4.1. Ymyraethau'n cyfrannu at gynnydd ar flaenoriaethau canlyniadau

Trywydd ymholiadau posibl *(i ddarganfod sut mae pob elfen o arfer yn gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol)*:

- Ymyraethau'n rhoi sylw i'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer defnyddiwr y gwasanaethau.
- Ymyraethau'n cael eu cyflawni i amddiffyn y cyhoedd, ac i helpu unigolion i ufuddhau i amodau eu dedfryd.
- Lefelau cysylltu'n diwallu gofynion yr achos ac yn helpu cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.
- Ymyraethau'n rhoi sylw i faterion ailsefydlu pan fo hynny'n berthnasol.

## 4.2. Ymyraethau'n cael eu cyflwyno mewn ffyrdd sy'n sicrhau'r effaith gorau posib

Trywydd ymholiadau posibl *(i ddarganfod sut mae pob elfen o arfer yn gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol)*:

- Ymyraethau'n cael eu cyflwyno'n dda mewn ffordd gydgysylltiedig a dilyniannol.
- Ailennyn cydweithrediad troseddwyr yn effeithiol ar ôl camau gorfodi, lle bo hyn yn angenrheidiol.
- Ymyraethau'n annog ac yn datblygu cryfderau ac heb fod yn canolbwyntio'n unig ar ymddygiad i'w anghymeradwyo.

## 4.3. Ymyraethau'n cael yr effaith gorau posib trwy ddiwallu anghenion amrywiol defnyddwyr gwasanaethau

Trywydd ymholiadau posibl *(i ddarganfod sut mae pob elfen o arfer yn gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol)*:

- Ymyraethau'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau ac yn rhoi sylw i'w hanghenion a'u hamgylchiadau unigol.
- Ymyraethau'n rhoi blaenoriaeth i gynyddu symbyliad a hunan-barch defnyddwyr gwasanaethau.

- Ymyraethau'n cynnig cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaethau ddatblygu cyfalaf cymdeithasol (cryfhau'r 'cwlwm cymdeithasol').

# 5. Adolygiadau’n cyfrannu at effeithiolrwydd

## 5.1. Adolygiadau’n olrhain cynnydd ar flaenoriaethau canlyniadau

Trywydd ymholiadau posibl *(i ddarganfod sut mae pob elfen o arfer yn gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol)*:

- Adolygiadau’n monitro’r graddau y mae’r cyhoedd, dioddefwyr posibl a phlant wedi cael eu hamddiffyn. Lle bo’n angenrheidiol, cymerir camau addas ac adnabyddir blaenoriaethau newydd ar gyfer canlyniadau.
- Adolygiadau’n monitro’r graddau y mae ymyraethau a gynlluniwyd i leihau aildroseddu yn y dyfodol yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol ac yn dangos gwelliannau mewn ffactorau sy’n gysylltiedig ag aildroseddu. Lle bo’n angenrheidiol, cymerir camau addas ac adnabyddir blaenoriaethau newydd ar gyfer canlyniadau.
- Adolygiadau’n monitro’r graddau y mae defnyddwyr gwasanaethau wedi cyflawni gofynion eu dedfrydau. Lle maent wedi methu â gwneud hynny mae ymateb priodol, gan gynnwys camau cosbi pan fo angen hynny.
- Adolygiadau’n monitro’r graddau y mae’r ‘canlyniadau meddal’, e.e. gwell agweddau cymdeithasol adeiladol neu fwy o symbyliad, wedi cael eu cyflawni. Caiff blaenoriaethau canlyniadau eu diwygio fel bo’n addas.
- Adolygiadau’n monitro’r graddau y gellir cynnal y gwelliannau a gyflawnwyd, gan gynnwys y defnydd o adnoddau partneriaeth a chymunedol. Caiff blaenoriaethau canlyniadau eu diwygio fel bo’n briodol.

## 5.2. Adolygiadau’n sicrhau bod pob agwedd o arfer yn cyfuno i gyflawni canlyniadau

Trywydd ymholiadau posibl *(i ddarganfod sut mae pob elfen o arfer yn gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol)*:

- Caiff asesiadau a chynlluniau eu hadolygu a’u diweddaru, yn enwedig ar ôl newidiadau sylweddol yn amgylchiadau defnyddiwr y gwasanaethau.
- Pob asiantaeth berthnasol yn cyfrannu at adolygiadau.
- Cyfraniad ymyraethau at leihau’r tebygolrwydd o aildroseddau yn cael ei adolygu a’i ddiwygio fel bo’n angenrheidiol.
- Cymerir pob cam rhesymol i gadw’r risg o niwed a achosir i eraill, gan gynnwys plant, mor isel â phosib.

- Lle bo defnyddiwr y gwasanaethau'n agored i niwed, cymerir pob cam rhesymol i gadw'r risg o niwed i'r unigolyn oddi wrtho'i hun ac oddi wrth eraill, mor isel â phosib.

### 5.3. Adolygiadau'n rhoi sylw i anghenion amrywiol defnyddwyr gwasanaethau ac yn sicrhau eu cydweithrediad parhaus

Trywydd ymholiadau posibl *(i ddarganfod sut mae pob elfen o arfer yn gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol)*:

- Defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu cynnwys yn ystyrlon mewn adolygiadau o gynnydd ac wrth greu cynlluniau diwygiedig.
- Adolygiadau'n monitro ac yn rhoi sylw i'r graddau y mae'r staff wedi cynnal perthynas waith gadarnhaol gyda defnyddwyr gwasanaethau ac yn parhau i'w symbylu i gyflawni canlyniadau.
- Cyflawnir gwaith gyda defnyddwyr gwasanaethau nad ydynt wedi cydymffurfio â gofynion eu dedfrydau gyda'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth a chydweithrediad yn y dyfodol.
- Adolygiadau'n rhoi sylw i unrhyw fethiannau ar y llwybr at ymataliad.

## 6. Trefniadau arwain, rheoli a phartneriaethau'n cyfrannu at effeithiolrwydd

### 6.1. Arweinwyr yn creu amgylchedd lle mae aildroseddu yn cael ei leihau, lle caiff y cyhoedd eu hamddiffyn a lle mae unigolion yn ufuddhau i ofynion eu dedfryd

Trywydd ymholiadau posibl *(i ddarganfod sut mae pob elfen o arfer yn gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol)*:

- Uwch reolwyr yn dangos arweiniad gweladwy ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau canlyniadau lleol a chenedlaethol sy'n cael eu cyfleu'n systematig ac yn effeithiol i staff.
- Data meintiol ac ansoddol hysbys ynghylch perfformiad y sefydliad wrth leihau aildroseddu a chyflawni amcanion cyfiawnder troseddol lleol a chenedlaethol, a hynny'n cael ei ddefnyddio i wella effeithiolrwydd.
- Uwch reolwyr yn cyfrannu'n effeithiol at drefniadau a rhwydweithiau strategol lleol (e.e. strategaethau a chynlluniau aildroseddu lleol) er mwyn cyflawni amcanion lleol a chenedlaethol.
- Darparwyr gwasanaethau prawf ac asiantaethau perthnasol eraill yn cydgysylltu gweithgaredd a rhannu adnoddau, e.e. rhannu gwybodaeth a chyflwyno gwasanaethau.
- Ffactorau amrywiaeth perthnasol sy'n ymwneud â chymunedau lleol, gan gynnwys gwahaniaethau mewn patrymau troseddu a nodweddion amrywiol, yn cael eu hadnabod a'u hystyried wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.
- Yr amrywiaeth o ymyraethau sydd ar gael i leihau aildroseddu yn diwallu anghenion lleol.
- Gwaith gyda sefydliadau eraill yn cefnogi darpariaeth gynhwysfawr a hygyrch o wasanaethau gofynnol.
- Y sefydliad yn cymhwyso gwersi oddi wrth ganlyniadau llwyddiannus ac andwyol fel ei gilydd, er mwyn gwella gwaith yn y dyfodol.

### 6.2. Rheolwyr y sefydliad a'i weithlu yn hyrwyddo effeithiolrwydd

Trywydd ymholiadau posibl *(i ddarganfod sut mae pob elfen o arfer yn gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol)*:

- Mae systemau lleol effeithiol i staff fonitro canlyniadau achosion a chefnogi gwelliant mewn arferion.

- Rheolwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd gwasanaethau wrth gyflawni canlyniadau cadarnhaol ac yn defnyddio hyn i wella canlyniadau ymhellach, e.e. trwy sicrhau bod prosesau ac adnoddau'n cefnogi'r gwaith.
- Staff yn cael eu hyfforddi'n ddigonol, yn ddigon cymwys a phrofiadol ac yn cael eu helpu i sicrhau bod yr arferion yn effeithiol.
- Staff yn cael eu cefnogi gan fframwaith sicrhau ansawdd effeithiol.
- Staff yn cael eu cefnogi i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan brosesau MAPPA a phrosesau amddiffyn plant ac amlasianthol eraill.
- Mae gan bawb o'r staff wybodaeth a dealltwriaeth glir o ddull y sefydliad o gyflawni canlyniadau a'u swyddogaeth wrth gyflawni'r nodau hynny.

## 6.3. Partneriaethau'n cyfrannu at effeithiolrwydd

Trywydd ymholiadau posibl *(i ddarganfod sut mae pob elfen o arfer yn gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol)*:

- Partneriaid yn gwneud cyfraniadau effeithiol at asesu, cynllunio a chyflwyno ymyraethau.
- Partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i roi digon o gyfle i ddefnyddwyr gwasanaethau gael yr ymyraethau y mae arnynt eu hangen.
- Cynlluniau y cytunwyd arnynt ar y cyd gan ddarparwyr gwasanaethau prawf a phartneriaid allweddol yn cael eu gweithredu a'u hadolygu'n rheolaidd.
- Rheolwyr yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gwasanaethau'n effeithiol.